

ENYA 2022

"Dewch i ni siarad yn ifanc, Dewch i ni siarad am Gyfiawnder Hinsawdd"

Cyfiawnder Hinsawdd:



Erthygl 3

1. Annog llywodraethau i fynd ati ar y cyd i rannu arfer da a rhoi cefnogaeth ariannol i'r gwledydd a'r bobl mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio fwyaf arnyn nhw, e.e. addewid yr Alban i roi £1 filiwn a/neu gyfrannu technoleg i ostwng allyriadau carbon ac annog cadarnhad ac anogaeth, yn hytrach na chanlyniadau negyddol



Erthygl 4

2. Rhoi llysoedd hinsawdd cyfreithiol rhyngwladol ar waith i reoleiddio cyfreithiau a pholisiau hinsawdd ar draws y byd, e.e. mae llysoedd ar gyfer hawliau dynol, felly pam ddim cyfiawnder hinsawdd?



Erthygl 29

3. Gwreiddio cyfiawnder hinsawdd yng nghwricwlwm ysgolion, gan ddefnyddio dull gweithredu rhyngweithiol sy'n ennyn diddordeb, e.e. dysgu yn yr awyr agored a dysgu ar draws meysydd pwnc gwahanol er mwyn pwysu a mesur diddordeb ehangach a gwell dealltwriaeth o effaith y newid yn yr hinsawdd.

Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 www.widgit.com



**Comisiynydd
Plant Cymru**

Children's
Commissioner
for Wales



Erthygl 17

4. Datblygu prosiectau codi arian rhyngwladol sy'n syml ac yn ennyn diddordeb, wedi'u cynhyrchu ar y cyd â phobl ifanc a dylanwadwyr, i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a chodi ei broffil, e.e. prosiect #TeamTrees/#TeamSeas a gynhaliwyd o 2020-2022.



Erthygl 12

5. Cynlluniau hygyrch cenedlaethol neu yng ngofal y llywodraeth, a phaneli ieuencid, sy'n sicrhau bod cyfle i bob person ifanc gael eu clywed.



Gogledd / De'r Byd:



Erthygl 30

1. Dull mwy seiliedig ar hawliau o ddiogelu lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys pobl frodorol, eu tir a'u diwylliant.



Erthygl 22

2. Dylai ffoaduriaid hinsawdd gael eu cynnwys a'u hamddiffyn o dan y diffiniad cyfreithiol o ffoaduriaid sy'n rhan o Gonfensiwn Ffoaduriaid 1951.

Ffyrdd o fyw ac ôl troed carbon



Erthygl 15, 28,

31

1. Trafnidiaeth gyhoeddus hygyrch am ddim i bawb o dan 18 oed, a fydd yn annog arferion gydol oes ac yn lleihau allyriadau carbon unigol.



Erthygl 27

2. Gwneud dillad ail-law/brandiau dillad cynaliadwy yn fwy hygyrch a rhoi pwysau ar gwmnïau ffasiwn cyflym i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd, e.e. lleihau'r defnydd o blastig untro, ymgyrchoedd ar-lein i atal y cymhelliad cymdeithasol i brynu mor aml.

Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 www.widgit.com



**Comisiynydd
Plant Cymru**
Children's
Commissioner
for Wales